AMODAU

1. Ni chaniateir cystadlu ond yn y Gymraeg.
2. Bydd barn y Pwyllgor ar unrhyw anghydweld yn derfynol.
3. Y cystadleuwyr i ofalu am gopi i'r Cyfeilydd a'r Beirniaid.
4. Y cyfansoddiau Llên i fod yn llaw y Beirniad erbyn Ebrill 20fed.
5. Y cystadleuwyr yn yr Adran Lenyddiaeth i ddanfon eu ffugenwau a'u henwau priodol i'r Ysgrifenyddion erbyn Ebrill 20fed.
6. Cynnyrch yr Adran Arlunio i fod yn llaw yr Ysgrifenyddion erbyn Ebrill 22ain.
7. Disgwylir i'r bardd buddugol ac enillydd y Tlws Llenyddiaeth i fod yn bresennol i dderbyn eu gwobrau.
8. Hawlir tystysgrif geni os bydd angen.
9. Ni fydd y Pwyllgor yn gyfrifol am unrhyw golled neu ddamwain ar y diwrnod.
10. Yr olaf i'r llwyfan i gystadlu'n gyntaf.
11. Bydd Seremoni'r Tlws Llenyddiaeth oddeutu 7:30 o'r gloch.
12. Bydd Seremoni'r Cadeirio oddeutu 9:00 o'r gloch.
13. Cystadleuaeth rhif 23 i'w chynnal yn union ar ôl y Cadeirio.
14. Gweler amodau cystadlaethau rhif 23 yr adran Gerddoriaeth a 14 ac 16 yn y Llefaru ar wefan Cymdeithas Eisteddfodau Cymru - www.steddfota.cymru

Taer erfynir i'r bobl sydd am gyfrannu tuag at yr Eisteddfod ddod â'u rhoddion i'r Swyddogion yr wythnos cynt.

DIOLCHIADAU

Dymuna'r Pwyllgor gydnabod yn ddiolchgar iawn bob rhodd a gweithred er llwyddiant y digwyddiad.
Ni fyddai'r Eisteddfod yn ffynnu heb gefnogaeth ei charedigion.

Derbyniwyd, gyda diolch, y rhoddion canlynol:

£200 gan Gyngor Sir Ceredigion tuag at Eisteddfod 2019

A thuag at Eisteddfod 2020/2023:

£333 gan Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen
£400 gan Gyngor Cymuned Llandysiliogogo
£150 gan Gymdeithas Eisteddfodau Cymru
£100 gan Gyngor Cymuned Llandysul

Y 67ain Eisteddfod, dan nawdd Capel y Fadfa

EISTEDDFOD GADEIRIOL CAPEL Y FADFA, TALGARREG

Dydd Sadwrn, Mai 6ed, 2023

yn Neuadd Goffa Talgarreg, ger Llandysul

Drysau'n agored am 1:00, i ddechrau'n brydlon am 1:30 o'r gloch

LLYWYDD Y DYDD

Jên Dafis, Tan Domen, Y Bont-Faen, Bro Morgannwg

BEIRNIAID

CERDD: Gwyn Nicholas, Llanpumsaint

LLÊN a LLEFARU: Jane Altham Watkins, Tahiti, Heol-Graig Glais, Abertawe, SA7 9JH

ARLUNIO: Lynda Thomas, Pencarreg

CYFEILYDD

Jonathan Morgan, 25 Heol Singleton, Tymbl Uchaf, Llanelli (01269 832384)

ARWEINYDDION

Wyn Thomas, Heledd Llwyd, Siwsan Dafis, Wmffre Dafis, Carol Rees

SWYDDOGION Y PWYLLGOR

CADEIRYDD: Y Parchedig Wyn Thomas B.A IS-GADEIRYDD: Y diweddar Cen Llwyd

YSGRIFENYDDION: Mr Emyr Griffiths, Nant y Glyn, Talgarreg, Llandysul SA44 4XB (01545 590383) a Mrs Enfys Llwyd, Tŷ'r Ysgol, Talgarreg, Llandysul SA44 4ER (01545 590295)

TRYSORYDD: Mrs Wendy Griffiths, Gwel y Cwm, Talgarreg

MYNEDIAD: Oedolion £4 Plant dan 16 oed £1

Darperir lluniaeth am bris rhesymol

AELOD O GYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU

CERDDORIAETH

	1af	2il	3ydd
1. Unawd i blant Ysgol Feithrin Talgarreg	Cwpan	£5	£3
2. Unawd i blant Capel y Fadfa ac Ysgol Talgarreg dan 8 oed	Cwpan	£5	£3
3. Unawd i blant Capel y Fadfa ac Ysgol Talgarreg dan 13 oed	Cwpan	£5	£3
Ceisir dechrau yr Adran Agored tua 3 o'r gloch			
4. Parti Unsain dan 13 oed	£10	£8	£5
5. Unawd dan 6 oed	Cwpan	£5	£3
6. Unawd dan 8 oed	Cwpan	£5	£3
7. Unawd dan 10 oed	Cwpan	£5	£3
8. Unawd 10 a than 12 oed	£10	£6	£3
9. Unawd unrhyw Offeryn Cerdd dan 12 oed *Cwpan her yn rhoddedig er cof am Sabrina Rachel Jenkins*	£10	£6	£3
10. Deuawd dan 12 oed	£10	£6	£3
11. Unawd 12 a than 16 oed	£10	£6	£3
12. Canu Emyn dan 12 oed	£10	£6	£3
13. Unawd Cerdd Dant dan 16 oed	£10	£6	£3
14. Unawd 16 a than 21 oed	£15	£10	£5
15. Deuawd Agored	£15	£10	£5
16. Cân Werin dan 18 oed	£15	£10	£5
17. Unawd allan o unrhyw Sioe Gerdd - Agored	£20	£15	£10
18. Her Unawd dros 16 oed	£30	£20	£10
19. Unawd Offeryn Cerdd - Agored *Cwpan Her a*	£20	£15	£5
20. Unawd Cerdd Dant - Agored	£15	£10	£5
21. Canu Emyn 12-18 oed	£20	£15	£10
22. Canu Emyn dros 18 oed	£20	£15	£10
23. Côr: dros 20 mewn nifer, i gyflwyno dau ddarn cyferbyniol heb fod yn fwy na 8 munud, ac i gynnwys darn gan gyfansoddwr o Gymru	*Tarian her* a £150	£75	

Cystadleuaeth Cymdeithas Eisteddfodau Cymru - amodau llawn ar www.steddfota.cymru

Rhoddir Cwpan i'w gadw am flwyddyn gan Peter a Megan Jones Roberts i'r cystadleuydd llwyfan mwyaf addawol dan 16 oed, ym marn y beirniad

ARLUNIO

1. Bl.2 ac iau, Bl.3 a 4, Bl.5 a 6: Agored	£8	£5	£4
2. Bl.2 ac iau, Bl.3 a 4, Bl.5 a 6: Creu Graffeg cyfrifiadurol - Agored	£8	£5	£4

LLEFARU

	1af	2il	3ydd
1. Adrodd i blant Ysgol Feithrin Talgarreg	Cwpan	£5	£3
2. Adrodd i blant Capel y Fadfa ac Ysgol Talgarreg dan 8 oed	Cwpan	£5	£3
3. Adrodd i blant Capel y Fadfa ac Ysgol Talgarreg dan 13 oed	Cwpan	£5	£3
4. Parti Cydadrodd o dri neu ragor dan 13 oed	£10	£8	£5
5. Adrodd dan 6 oed	Cwpan	£5	£3
6. Adrodd dan 8 oed	Cwpan	£5	£3
7. Adrodd dan 10 oed	Cwpan	£5	£3
8. Adrodd 10 a than 12 oed	£10	£6	£3
9. Adrodd 12 a than 16 oed	£10	£6	£3
10. Adrodd i Ddysgwyr dan 16 oed	£10	£6	£3
11. Adrodd 16 a than 21 oed	£15	£10	£5
12. Adrodd unrhyw gerdd neu ddetholiad o gerdd gan brifardd a aned yng Ngheredigion neu sy'n byw yno ar hyn o bryd	£20	£15	£10
13. Her Adroddiad dros 16 oed	£30	£20	£10
14. Perfformio Darn Digri Agored	£20	£15	£10
Cystadleuaeth Cymdeithas Eisteddfodau Cymru - amodau llawn ar www.steddfota.cymru			
15. Adrodd i Ddysgwyr dros 16 oed	£20	£15	£10
16. "Sgen Ti Dalent?" Agored i unigolion neu grwpiau dros 16 oed	£25	£15	£10

LLENYDDIAETH

1. Cystadleuaeth y Gadair: Emyn ar y testun "Llwybrau" - geiriau yn unig.	Cadair fechan a £40 *-rhoddedig gan Meirion ac Anwen Jones, Abernac, Lledrod*
2. Tlws Llenyddiaeth dan 21 oed (ar ddyddiad yr Eisteddfod): Cyflwyno dau ddarn o Lenyddiaeth mewn dwy ffurf wahanol - e.e Stori Fer, Ysgrif, Cerdd neu Bortread	Tlws a £30 *- rhoddedig gan Megan, Gwyn a Ronnie*
3. Ffurfio 5 dihareb newydd	£10
4. Englyn: "Cofiwch Dryweryn"	£10
5. Brawddeg o'r gair: "ABERNAC"	£10
6. Limrig i'w orffen: "Rhyw noson yn ystod yr eira"	£10

YSGRIFENNU STORI

1. Stori Fer Bl.2 ac iau: Agored	£8	£5	£4
2. Stori Fer Bl.3 a 4: Agored	£8	£5	£4
3. Stori Fer Bl.5 a 6: Agored	£8	£5	£4